
Adroddiad Blynyddol

2020 – 21

Gorffennaf 2021

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac i alluogi'r rhai a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swyddi yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

Aelodau'r Bwrdd

- Dr Elizabeth Haywood (Cadeirydd)
- Ronnie Alexander
- Mike Redhouse
- Y Fonesig Jane Roberts
- Hugh Widdis

Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

- Lleu Williams, Clerc
- Ruth Hatton, Dirprwy Glerc

Mae copïau o'r Penderfyniad hwn hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled gan:

Clerc Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Taliadau@Senedd.Cymru**

Adroddiad Blynyddol

2020 – 21

Gorffennaf 2021

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd.....	5
1.1 Sefydlu a Phenodi	5
1.2 Swyddogaethau ac Amcanion	5
1.3 Egwyddorion	6
1.4 Methodoleg.....	7
1.5 Ymgynghori a chasglu tystiolaeth.....	8
Gwaith y Bwrdd yn 2020-21	9
1.6 Adolygu Penderfyniadau	9
1.7 Penderfyniad eithriadol ar gyflog yr Aelodau.....	9
1.8 Ymateb i COVID-19	11
1.9 Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd.....	12
1.10 Y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu.....	13
1.11 Ystyried taliadau eithriadol	13
Atodiad A: Aelodau'r Bwrdd	15
Aelodau'r ail Fwrdd 2015-2020.....	18
Atodiad B: Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd ar gyfer 2020-21	1
Atodiad C: Prosiectau'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu 2020-21	5

Cyflwyniad

Ers dechrau fy rôl fel Cadeirydd y Bwrdd ym mis Medi 2020 rwyf wedi bod yn ddiolchgar am y croeso cynnes a estynnwyd i mi a fy nghyd-aelodau ar y Bwrdd gan Aelodau a staff cymorth fel ei gilydd.

Roedd y Bwrdd newydd yn ffodus o allu dechrau ei dymor â sylfeini cadarn eisoes ar waith ar ôl i'r Bwrdd blaenorol gyhoeddi'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd ym mis Mehefin 2020. Caniataodd hyn ar gyfer proses esmwyth o newid o un Bwrdd i'r llall gan sicrhau bod Aelodau'r Senedd yn cael y cymorth priodol i gyflawni eu rolau wrth gynrychioli pobl Cymru. Hoffwn estyn fy nioch i'r Fonesig Dawn Primarolo a Trevor Reaney, a wasanaethodd ar yr ail Fwrdd, am eu cyfraniad a'u hymroddiad i waith y Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn dymuno pob llwyddiant iddynt yn y dyfodol.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol am sawl rheswm, yn enwedig oherwydd yr ansicrwydd parhaus yn sgil pandemig COVID-19. Mae darpariaethau i gefnogi gwaith swyddfeydd yr Aelodau wedi bod ar waith ers mis Ebrill 2020 ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Bwrdd wedi adolygu'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ar gyfer y Chweched Senedd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n briodol yng nghyd-destun y pandemig a'r amgylchiadau economaidd presennol.

Mae'r Bwrdd hefyd wedi bod yn ystyried cyfeiriad a ffocws ei waith ar gyfer y tymor hwn. I'r perwyl hwn, bydd y Bwrdd yn rhoi sylw manwl i ddatblygiad y Senedd fel sefydliad dros y blynyddoedd nesaf i sicrhau bod Aelodau'n parhau i gael eu cefnogi'n briodol i gyflawni eu rôl.

Yn dilyn yr etholiad ym mis Mai hefyd, croesawyd Aelodau newydd o'r Senedd, yn ogystal â'r Aelodau a ddychwelodd. Mae'r Bwrdd yn edrych ymlaen at gwrdd â chynifer o Aelodau â phosibl yn ystod y misoedd nesaf.

Yn olaf, byddwch yn ymwybodol bod Ronnie Alexander bellach wedi cwblhau ei dymor ar y Bwrdd. Ar ran y Bwrdd, hoffwn ddiolch i Ronnie am ei gyfraniad dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae ei wybodaeth a'i arbenigedd ynghylch iechyd a diogelwch yn arbennig wedi galluogi'r Bwrdd i roi mesurau cymorth penodol ar waith ar gyfer Aelodau a staff yn y cyfnod anodd iawn hwn.

Cofion gorau,



Dr Elizabeth Haywood

Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Mae'r bennod hon yn disgrifio swyddogaethau'r Bwrdd, ei gylch gwaith a'i ffyrdd o weithio.

1.1 Sefydlu a Phenodi

- 1.1.1 **Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd** yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu tâl a lwfansau yr Aelodau a'u staff. Cafodd y Bwrdd ei sefydlu gan **Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010** (y Mesur), a dderbyniodd Gymeradwyaeth Frenhinol ym mis Gorffennaf 2010.
- 1.1.2 Penodir y Bwrdd gan Gomisiwn y Senedd drwy broses penodiadau cyhoeddus.
- 1.1.3 Penodir aelodau'r Bwrdd am gyfnod penodol o bum mlynedd, ac ni chânt wasanaethu am fwy na dau dymor. Penderfynodd y Cadeirydd ac un Aelod o'r Bwrdd blaenorol (2015-20) beidio â gwasanaethau am dymor arall ar y Bwrdd, tra cytunodd dau aelod arall i geisio ail dymor. Penodwyd aelod olaf y Bwrdd ran o'r ffordd drwy'r tymor felly byddai tymor yr aelod hwnnw yn dod i ben yn nhymor yr haf 2022. Felly, cynhaliwyd proses penodiadau cyhoeddus yn 2020 i geisio Cadeirydd ac aelod newydd ar gyfer y Bwrdd.
- 1.1.4 Ar 15 Mehefin 2020, aeth Comisiwn y Senedd ati'n ffurfiol i **gymeradwyo** penodi Cadeirydd ac aelod newydd o'r Bwrdd. Hefyd, adnewyddodd y Comisiynwyr benodiadau dau aelod o'r Bwrdd. Cynhaliodd y Bwrdd presennol ei gyfarfod cyntaf ar 23 a 24 Medi 2020. Mae bywgraffiadau'r Bwrdd a benodwyd ym mis Medi 2020 i'w gweld yn Atodiad A.

1.2 Swyddogaethau ac Amcanion

- 1.2.1 Swyddogaethau'r Bwrdd yw penderfynu ar lefel tâl a lwfansau a'r system o gymorth ariannol ar gyfer Aelodau sy'n eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau o'r Senedd. Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb statudol i sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.
- 1.2.2 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae **adran 3** o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd adolygu'r ffordd y gweithredir ei benderfyniadau a'i effeithiolrwydd yn

barhaus, gan ystyried yn benodol y profiad y mae'r Bwrdd yn ei feithrin wrth roi ei benderfyniadau ar waith, unrhyw newidiadau i swyddogaethau Aelodau, ac unrhyw amgylchiadau eraill sy'n berthnasol.

- 1.2.3** Er ei fod yn annibynnol ar y Senedd, ac nad yw'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd na rheolaeth y Senedd na Chomisiwn y Senedd, mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd ymgynghori â'r rhai y mae ei benderfyniadau yn debygol o effeithio arnynt. Mae hyn yn cynnwys Aelodau, staff a gyflogir gan Aelodau neu gan grwpiau o Aelodau, undebau llafur perthnasol ac unrhyw bersonau eraill y mae'r Bwrdd o'r farn eu bod yn briodol.
- 1.2.4** Yn unol â'r Mesur, mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn breifat ac yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw drwy gyhoeddi gwybodaeth ar wefan y Senedd yn ogystal â'i wefan ei hun gan sicrhau bod gwybodaeth am ei weithgareddau ar gael i'r cyhoedd. Mae **agenda a chofnodion** pob un o gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd ar gael ar dudalennau'r Bwrdd ar wefan y Senedd. Mae'r Bwrdd hefyd yn cyhoeddi llythyr diweddarau ar ôl y cyfarfod a anfonir yn uniongyrchol at yr holl Aelodau a'u staff.
- 1.2.5** At hynny, mae **adran 11** o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd osod gerbron y Senedd adroddiad blynyddol am ei weithgareddau, gan gynnwys yr adnoddau a ddefnyddir ganddo, yn ystod pob blwyddyn ariannol. Caiff costau'r Bwrdd a'r treuliau a hawliwyd gan yr Aelodau eu cyhoeddi yn Atodiad B.

1.3 Egwyddorion

- 1.3.1** Mae cyfres o egwyddorion a ddiffiniwyd yn glir wedi bod yn sail i waith y Bwrdd hyd yn hyn:
- dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau a roddir i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau;
 - rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;
 - rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.
- 1.3.2** Datblygodd yr ail Fwrdd (yn 2016) set o egwyddorion ac amcanion llywodraethu cyn cyhoeddi ei **strategaeth** ar gyfer cyflawni ei waith yn ystod y Bumed Senedd.

- 1.3.3** Ers dechrau yn ei swydd ym mis Medi 2020 mae'r Bwrdd presennol wedi bod yn adolygu ei ddull strategol. Bydd y Bwrdd yn ystyried ei strategaeth a'i amcanion terfynol ynghyd ag amlinelliad o'i raglen waith yn 2021.

1.4 Methodoleg

- 1.4.1** Mae'r penderfyniadau a nodir yn y Penderfyniad wedi'u seilio ar dystiolaeth a gasglwyd gan yr Aelodau, eu staff, ac unigolion, sefydliadau a ffynonellau perthnasol eraill. Daw'r penderfyniadau o'r adolygiad tryloyw a chyfranogol o'r system cefnogaeth ariannol a thâl.
- 1.4.2** O ganlyniad i'r dystiolaeth a gafwyd gan y Bwrdd, mae wedi ceisio gwneud newidiadau i'r system o gymorth ariannol er mwyn targedu adnoddau i gefnogi dibenion y Senedd a phob agwedd ar rôl Aelod. Yn unol â'i gylch gwaith, mae'r Bwrdd yn ymateb i adborth fel y bo angen, drwy ystyried diwygiadau i'r Penderfyniad er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'r diben.
- 1.4.3** Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i ddarparu adnoddau i ddiwallu anghenion penodol Aelodau ac i ymateb i ofynion Senedd Cymru wrth iddi barhau i esblygu. Mae'n bwysig bod y Bwrdd yn targedu adnoddau i gynorthwyo Aelodau i gyflawni eu cyfrifoldebau craidd, sef: craffu ar bolisi a chyllid; dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif; deddfu; cytuno ar drethi Cymru; a chynrychioli eu hetholwyr.
- 1.4.4** Nid yw hynny'n golygu na fydd y Bwrdd yn ystyried sut y gall ei swyddogaethau gyfrannu'n ehangach at ddatblygiad strategol Senedd Cymru, wrth i'r sefydliad dyfu a datblygu ac wrth i'w gofynion newid dros amser.
- 1.4.5** Pan fo'r Bwrdd yn mentro i gyfrannu at faterion sydd â chanlyniadau ehangach, er enghraifft wrth geisio dileu rhwystrau ar gyfer darpar ymgeiswyr, mae bob amser yn ymwybodol o'i gylch gwaith.
- 1.4.6** Mae'r Bwrdd yn cael cymorth clerico ac ymchwil, cyngor cyfreithiol a chynghor arall, a chymorth gweinyddol gan staff Comisiwn y Senedd (yn unol ag adran 9 o'r Mesur). Darperir y cymorth hwn fel rhan o ddyletswyddau cyffredinol staff y Comisiwn, ac nid yw felly'n arwain at unrhyw gostau ychwanegol i'r Bwrdd.

1.5 Ymgynghori a chasglu tystiolaeth

- 1.5.1** Ym mhob rhan o'i waith, mae'r Bwrdd yn mynd ati i geisio tystiolaeth i lywio ei benderfyniadau drwy ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys Aelodau a'u staff cymorth. Mae hyn yn un o egwyddorion allweddol dull gweithredu'r Bwrdd.
- 1.5.2** Mae'r Bwrdd wedi cynnal sawl ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid i gael adborth ar weithredu'r Penderfyniad yn ymarferol. Mae'r cyfleoedd hyn wedi cynnwys cyfarfodydd rhithwir gydag Aelodau a staff cymorth, a'u cynrychiolwyr.
- 1.5.3** Cynhaliodd y Bwrdd gyfarfodydd buddiol â'r grwpiau sy'n cynrychioli Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth. Yn y cyfarfodydd hyn, mae'r Bwrdd yn cyfarfod ag unigolyn enwebedig o grŵp pob plaid wleidyddol. Mae'r grwpiau hyn wedi bod yn bwysig o ran hyrwyddo trafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd, yn ogystal â rhoi llwyfan i ystyried materion a phryderon sy'n effeithio ar Aelodau a'u staff.

Gwaith y Bwrdd yn 2020-21

Mae'r bennod hon yn egluro'r newidiadau y mae'r Bwrdd wedi'u gwneud i'r Penderfyniad eleni ar ôl cael adborth a thystiolaeth gan yr Aelodau.

1.6 Adolygu Penderfyniadau

1.6.1 Yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21, nid yn unig y mae'r Bwrdd wedi newid, ond cafodd pandemig COVID-19 hefyd effaith sylweddol ar waith y Bwrdd.

1.6.2 Mae'n ofynnol i'r Bwrdd adolygu'r Penderfyniad fel ei fod yn parhau i:

- sicrhau bod lefel y taliadau y mae'r Aelodau yn eu cael yn adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd eu rôl fel Aelodau, ac nad yw'n rhwystro unrhyw un rhag ceisio cael ei ethol i'r Senedd;
- darparu'r adnoddau sydd eu hangen ar Aelodau i gyflawni eu rolau; a
- sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

1.6.3 Yn ystod y flwyddyn ariannol, adolygodd y Bwrdd benderfyniadau mewn nifer o feysydd, fel yr amlinellir isod.

1.7 Penderfyniad eithriadol ar gyflog yr Aelodau

1.7.1 Ar 24 Medi 2020, yn unol â'r darpariaethau a nodir yn adran 13(5) o'r **Mesur**, gwnaeth y Bwrdd **benderfyniad eithriadol** a ddaeth i rym ar gyfer gweddill y Bumed Senedd ynghylch cyflog yr Aelodau. Roedd hyn yn dilyn penderfyniad eithriadol cynharach a wnaed gan y Bwrdd blaenorol ym mlwyddyn ariannol 2019/20. Penderfynodd y Bwrdd ddileu'r mecanwaith mynegeo a gymhwyswyd i gyflogau Aelodau cyn dechrau'r Chwched Senedd. Roedd hyn yn golygu na fyddai cyflogau Aelodau'n cael eu cynyddu cyn dechrau'r Chwched Senedd.

- 1.7.2 Fel rhan o'i adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd, cyn yr etholiad ym mis Mai 2021, cynigiodd y Bwrdd wneud penderfyniad eithriadol ynghylch cyflogau ar gyfer tymor y Chweched Senedd.
- 1.7.3 Ar 4 Mawrth 2021, gwnaeth y Bwrdd **benderfyniad eithriadol** ynghylch tâl Aelodau a deiliaid swyddi ar gyfer blwyddyn gyntaf y Chweched Senedd.
- 1.7.4 Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ganddo, penderfynodd y Bwrdd ailosod cyflogau'r Aelodau ar gyfer y Chweched Senedd ar £67,649. Roedd hyn yn golygu na fyddai cyflogau Aelodau'n cael eu cynyddu ar ddechrau'r Chweched Senedd. I bob pwrpas, roedd hyn yn golygu rhewi cyflogau Aelodau o'r Senedd am ddwy flynedd. Oherwydd difrifoldeb effaith economaidd barhaus y pandemig a gwrthwynebiad unfryd yr Aelodau i gynnig y Bwrdd i gynyddu cyflogau ar ddechrau'r Chweched Senedd, daeth y Bwrdd i'r casgliad y byddai unrhyw godiad cyflog yn amhriodol yng nghyd-destun y cyflogau a delir mewn mannau eraill yng Nghymru.
- 1.7.5 Penderfynodd y Bwrdd hefyd ddiwygio cyflogau deiliaid swyddi gan olygu na fyddent ychwaith yn cynyddu ar ddechrau'r Chweched Senedd.
- 1.7.6 Penderfynodd y Bwrdd hefyd, y byddai newidiadau cyflog blynyddol i Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol, o 2022-23, yn amodol ar uchafswm cynnydd o dri y cant wedi'i fynegeo, ond na fyddai'n is nag isafswm o sero y cant. Felly, byddai'r penderfyniad hwn hefyd yn diystyru unrhyw ostyngiad i gyflogau Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol yn y Chweched Senedd.
- 1.7.7 Yn dilyn y penderfyniadau hyn, cyhoeddwyd y **Penderfyniad diwygiedig ar gyfer y Chweched Senedd** ar 18 Mawrth 2021. Ym mharagraff 3.2.1, esbonir y bydd tâl Aelodau a deiliaid swyddi, am weddill y Chweched Senedd, yn cael ei addasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol â'r newid yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, Enillion Canolrif gros cyflogeion amser llawn yng Nghymru, rhwng mis Ebrill y flwyddyn honno a mis Ebrill y flwyddyn flaenorol. Ym mharagraff 3.2.2, nodir na fydd yr addasiad yn is na sero y cant ac ni fydd yn uwch na thri y cant.

1.8 Ymateb i COVID-19

- 1.8.1** Yn gynnar wrth i bandemig COVID-19 ddatblygu, ymrwymodd y Bwrdd i roi'r gefnogaeth angenrheidiol i Aelodau a'u staff cymorth i sicrhau eu bod yn gallu parhau â'u gwaith pwysig yn ystod yr adeg heriol hon.
- 1.8.2** Ymrwymodd y Bwrdd i adolygu'r sefyllfa'n gyson er mwyn deall sut yr oedd y pandemig yn effeithio ar arferion gwaith yr Aelodau a'u swyddfeydd. Penderfynodd y Bwrdd ddilyn egwyddor o fod mor hyblyg â phosibl o ran y cymorth a ddarperir drwy gyllideb y Penderfyniad.
- 1.8.3** Sefydlwyd cronfa ar gyfer lwfans gweithio gartref ym mis Ebrill 2020, am gyfnod o hyd at dri mis i ddechrau. Diben y gronfa yw helpu â chostau gweithio gartref i'r staff cymorth sy'n gweithio gartref o ganlyniad i bandemig COVID-19. Caiff yr Aelodau hawlio hyd at £6 yr wythnos (neu hyd at £26 y mis ar gyfer staff a delir yn fisol) fesul aelod o staff cymorth (yn unol â chyfraddau Cyllid a Thollau EM a ganiateir ar gyfer gweithio gartref). Mae'r taliad hwn i staff yn ddi-dreth.
- 1.8.4** At hynny, trefnodd y Bwrdd fod cwrs ar gael ar-lein i alluogi unigolion i gynnal asesiadau DSE ar gyfer gweithio gartref. Roedd hyn yn agored i'r Aelodau a'r staff cymorth. Agorwyd cronfa fyrdymor i dalu am yr offer DSE ychwanegol a oedd yn ofynnol o ganlyniad i'r asesiad ar-lein hwn yn yr haf a daeth i ben ym mis Medi 2020. Yn olaf, crëwyd Cronfa Dychwelyd i Swyddfeydd yn dilyn COVID-19 er mwyn galluogi Aelodau i ariannu'r mesurau iechyd a diogelwch rhesymol sydd eu hangen i ddiogelu rhag lledaenu'r feirws mewn swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol.
- 1.8.5** Fel rhan o'i adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad, diwygiodd y Bwrdd y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd i gynnwys cyfeiriad at y cymorth a ddarparwyd yn ystod y pandemig, a amlinellir yn adran 2.5 o'r ddogfen hon.
- 1.8.6** Mae'r Bwrdd yn parhau i adolygu'r sefyllfa a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae hefyd mewn cysylltiad rheolaidd ag Aelodau, staff cymorth a Chomisiwn y Senedd i sicrhau bod unrhyw anghenion sy'n codi yn cael sylw cyn gynted ag y bo angen.

1.9 Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd

- 1.9.1** Prif ffocws gwaith y Bwrdd blaenorol yn ystod blwyddyn olaf ei dymor oedd yr Adolygiad o'r **Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd**. Cyhoeddwyd y ddogfen ychydig yn llai na blwyddyn cyn etholiad 2021, ar 4 Mehefin 2020. Roedd hyn yn unol ag ymrwymiad y Bwrdd hwnnw i gyhoeddi'r Penderfyniad flwyddyn cyn yr etholiad er mwyn darparu gwybodaeth i ddarpar ymgeiswyr am y cymorth a fyddai ar gael pe baent yn cael eu hethol.
- 1.9.2** Cynhaliodd y Bwrdd newydd a benodwyd ym mis Medi 2020 adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd a gyhoeddwyd gan y Bwrdd blaenorol (fel y trafodwyd yn y paragraff blaenorol). Prif nod yr adolygiad hwn oedd sicrhau bod y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd yn parhau i fod yn briodol yng nghyd-destun pandemig COVID-19 a'r effaith economaidd a chymdeithasol gysylltiedig. Hefyd, roedd angen iddo sicrhau bod y Penderfyniad yn parhau i fod yn addas o gofio'r effaith ar fusnes y Senedd. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 16 Rhagfyr 2020 a 11 Chwefror 2021.
- 1.9.3** Yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2021 penderfynodd y Bwrdd ar nifer o newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd. Yn ogystal â'r penderfyniad ar gyflogau Aelodau fel yr amlinellir uchod, cymhwysodd y Bwrdd hefyd isafswm ac uchafswm ar gyfer y cynnydd blynyddol mewn cyflogau i staff cymorth. Cyflwynodd y Bwrdd ddarpariaethau hefyd i wella cynllun pensiwn y staff cymorth. Roedd newidiadau eraill yn cynnwys cynyddu gwerth y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i adlewyrchu'r ffaith bod y gwaith o ddarparu deunydd ysgrifennu wedi'i drosglwyddo o Gomisiwn y Senedd i'r Penderfyniad, a diwygio'r diffiniad o "blaid wleidyddol" yn y Penderfyniad. Mae rhagor o wybodaeth am benderfyniadau'r Bwrdd yn **adroddiad y Bwrdd a oedd yn cyd-fynd â'r Penderfyniad**.

1.10 Y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu

- 1.10.1** Caiff Aelodau hawlio hyd at £2,500 y flwyddyn er mwyn comisiynu darnau unigol o waith ymchwil o ffynonellau allanol. Gall grwpiau'r pleidiau gwleidyddol ddefnyddio unrhyw danwariant o'r lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol mewn modd tebyg. Caiff Aelodau (ond nid y grwpiau) hefyd ddefnyddio'r gronfa i ymgysylltu â'u hetholwyr. Ni chaniateir defnyddio'r arian hwn ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth y pleidiau. Cyfyngir ar fynediad i'r cyllid hwn yn y pedwar mis cyn etholiad cyffredinol y Senedd.
- 1.10.2** Yn ystod 2020-21, manteisiodd 33 o Aelodau ar y gronfa. Hawliodd Aelodau gyfanswm o £56,589.01 o'r Gronfa hon, ac mae'r manylion i'w gweld yn Atodiad C i'r adroddiad hwn.

1.11 Ystyried taliadau eithriadol

- 1.11.1** Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gallai amgylchiadau eithriadol effeithio ar Aelodau unigol, gan effeithio ar eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau. Bydd y rhain yn aml yn gyfrinachol eu natur, a gallant godi ar fyr rybudd. Mae dyletswydd ar y Bwrdd i gefnogi'r Aelodau ym mhob agwedd ar eu rôl ac, ym marn y Bwrdd, os caiff wybod am amgylchiadau o'r fath, dylai wneud penderfyniad a oes achos o blaid darparu cymorth ariannol eithriadol. Felly, ymdrinnir â cheisiadau o'r fath mewn ffordd sensitif, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith ar gyfer adrodd ar drafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd. Pan fo'r costau'n barhaus, bydd y Bwrdd yn adolygu pob achos yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod yr amgylchiadau personol yn aros yr un fath ac felly, bod y penderfyniad yn parhau i fod yn ddilys ac yn cynnig gwerth am arian i drethdalwyr. Amlinellir y ddarpariaeth ar gyfer treuliau o'r fath yn adran 2.4 o'r Penderfyniad.
- 1.11.2** Yn ystod 2020-21, cymeradwyodd y Bwrdd un cais ac ystyriodd dri chais aflwyddiannus. Daeth y taliadau parhaus eraill i gyfanswm o £1851.84 am yr un flwyddyn ariannol.
- 1.11.3** Mae'r Bwrdd yn adolygu'r holl daliadau presennol yn flynyddol (mewn achosion pan fo'r taliadau ychwanegol yn ymestyn y tu hwnt i 12 mis). Y rheswm am hyn yw er mwyn sicrhau bod yn dal angen y cymorth a ddarperir, ac er mwyn asesu a fu unrhyw newid yn yr amgylchiadau.

Atodiad A: Aelodau'r Bwrdd



Dr Elizabeth Haywood (Cadeirydd)

Ar hyn o bryd, mae Elizabeth yn aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n cadeirio Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn y gorffennol, roedd hi'n aelod o Fwrdd Scottish Power Energy Networks, Hendre Group, Leonard Cheshire ac yn aelod annibynnol o Fwrdd Taliadau Swyddfa

Archwilio Cymru, a hi oedd Cadeirydd cyntaf WCVA Services Ltd. Hi oedd cadeirydd Tasglu Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar gyfer Dinas-ranbarthau hefyd.

Treuliodd ddechrau ei gyrfa yn Senedd Ewrop ac Awdurdod Datblygu Cymru, cyn cael ei phenodi'n Gyfarwyddwr CBI Cymru, yna'n Gyfarwyddwr Cyfathrebu Cymdeithas y Cwmnïau Trenau ac yna bu'n rheoli cwmni chwilio am uwch-swyddogion yng Nghaerdydd a Llundain.

Mae ganddi radd mewn economeg o Brifysgol Caerdydd, PhD a doethuriaeth er anrhydedd o Abertawe, a hi oedd enillydd cyntaf Gwobr Cymraes y Flwyddyn, ac mae'n Gymrawd Anrhydeddus ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Cafodd Elizabeth ei phenodi'n Gadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ym mis Medi 2020.

Michael Redhouse



Ar hyn o bryd, Michael Redhouse yw Pennaeth EMES Consulting, sef cwmni a sefydlodd yn 2002 sy'n helpu llawer o sefydliadau mawr gyda materion taliadau a buddion. Graddiodd Michael mewn mathemateg o'r Brifysgol Agored, ac mae ei yrfa wedi cynnwys cyfnodau fel Partner yn Ernst and Young a Chyfarwyddwr Polisi Cyflogaeth yn Diageo. Mae Michael wedi bod yn Ymddiriedolwr i Ymddiriedolaeth APEX, sy'n cefnogi troseddwr sy'n dychwelyd i'r gwaith, ac yn Gadeirydd Ymddiriedolwyr Hosbis St Luke yn Harrow.

Mae Michael yn Aelod o'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol, sy'n edrych ar gyflogau, dyletswyddau proffesiynol ac amser gweithio athrawon ysgol yng Nghymru a Lloegr, ac sy'n atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Mae Michael wedi bod yn aelod o'r Bwrdd Taliadau Annibynnol ers 2015.

Jane Roberts



Mae Jane yn Gymrawd Ymchwil mewn Arweinyddiaeth Gyhoeddus yn Ysgol Fusnes y Brifysgol Agored.

Rhwng 2000 a 2005, Jane oedd Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Camden yn Llundain, ac ers hynny mae wedi gwasanaethu mewn nifer o rolau anweithredol gan gynnwys Cadeirydd Comisiwn Cynghorwyr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DU, Cadeirydd Parenting UK, aelod o fwrdd Ofsted, Cadeirydd New Local Government Network ac, ar hyn o bryd, hi yw Cadeirydd yr elusen Living Streets. Mae hefyd yn aelod o Grŵp Cyngori Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Urddwyd Jane yn DBE yn 2004. Yn broffesiynol, mae'n feddyg ac yn Seiciatrydd Ymgynghorol Plant a Phobl Ifanc er Anrhydedd â phrofiad o uwch-reoli ym maes gofal iechyd yn y GIG.

Mae Jane wedi cyhoeddi nifer o erthyglau academiaidd ym maes pediatreg, seiciatreg a gwleidyddiaeth. Golygodd 'The Politics of Attachment' (1996) ar y cyd â Sebastian Kraemer, a hi yw awdur 'Losing Political Office' (2017).

Mae Jane wedi bod yn aelod o'r Bwrdd Taliadau Annibynnol ers 2015.

Hugh Widdis



Hugh yw Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth ar gyfer Gogledd Iwerddon, ac ef yw'r Cyfreithiwr Adran ar gyfer Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae ganddo 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn gwasanaethau cyfreithiol seneddol a llywodraeth. Cyn ymuno â Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Hugh oedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ar gyfer Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Cyn hynny, gweithiai ym maes ymchwil, fel bargyfreithiwr mewn practis preifat ac fel cyfreithiwr mewnol i gwmni blaenllaw ym maes gwasanaethau ariannol. Mae hefyd wedi gweithio yn swyddfa gyfreithiol Senedd yr Alban, ac ar gyfraith gwahaniaethu yn Swyddfa'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog. Roedd yn aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn Cynulliad Cymru (ACARAC) rhwng 2012 a 2019. Mae Hugh yn fargyfreithiwr ac yn aelod o Far Iwerddon a Bar Gogledd Iwerddon.

Cafodd Hugh ei benodi i'r Bwrdd Taliadau Annibynnol ym mis Mehefin 2020.

Ronnie Alexander (Gorffennaf 2017 – Mehefin 2021)¹



Mae Ronnie yn gyn-Brif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd i Lywodraeth Cymru. Mae'n Eiriolwr Defnyddwyr i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr ac yn aelod o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru. Mae Ronnie hefyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol i Estyn, yn Gadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Safonau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac mae'n aelod o'r Pwyllgorau Safonau ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Chyngor Bro

Morgannwg. Mae hefyd yn cadeirio'r Panel Taliadau Annibynnol ar Lwfansau'r Aelodau ar gyfer Cyngor Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf ac mae'n Aelod Panel dros Gyngor Dinas Bryste.

Dilynodd Ronnie yrfa yn y gwasanaeth sifil am dros 20 mlynedd, ac roedd newid hinsawdd a chynaliadwyedd yn ddiddordebau penodol ganddo. Cyn hynny, bu'n gweithio i nifer o awdurdodau lleol yng Ngogledd Iwerddon a Lloegr mewn meysydd fel gorfodi a gwasanaethau cymorth strategol. Mae ganddo hanes sylweddol o ymgysylltu â'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a gwleidyddion ar bob lefel i ddylanwadu ar bolisi.

Cadarnhaodd Comisiwn y Cynulliad benodiad Ronnie i'r Bwrdd ym mis Mehefin 2017. Cymerodd ei le ar y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2017.

¹Ar 19 Mawrth 2021, cyflwynodd Ronnie Alexander ei ymddiswyddiad. Ei ddiwrnod olaf oedd 18 Mehefin 2021.

Aelodau'r ail Fwrdd 2015-2020



O'r chwith i'r dde: Michael Redhouse, Ronnie Alexander², y Fonesig Dawn Primarolo (Cadeirydd), y Fonesig Jane Roberts, Trevor Reaney

² Penodwyd Ronnie Alexander yn aelod o'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2017, yn dilyn ymddiswyddiad Roger Williams.

Atodiad B: Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd ar gyfer 2020-21

Mae'r tabl isod yn dangos costau uniongyrchol y Bwrdd Taliadau ym mlwyddyn ariannol 2020-21. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd wyth cyfarfod ffurfiol o'r Bwrdd yn ogystal â nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ag Aelodau a staff cymorth. Mae'r tablau a ganlyn yn nodi ffioedd a threuliau aelodau'r Bwrdd.

Tabl1: Ffioedd aelodau'r Bwrdd³

	Cost						
	Y Fonesig Dawn Primarolo	Ronnie Alexander	Y Fonesig Jane Roberts	Trevor Reaney	Michael Redhouse	Dr Elizabeth Haywood	Hugh Widdis ⁴
Cyfradd fesul diwrnod	£333.00	£310.00	£310.00	£267.00	£310.00	£1,200.00	£0.00
Cyfanswm	£1,967.18	£6,226.83	£2,772.97	£979.00	£4,309.25	£6,883.97	£0.00

³ Newidiwyd y gyfradd ddyddiol sy'n daladwy i aelodau'r Bwrdd ar ddechrau tymor y Bwrdd newydd ym mis Medi 2020. Newidiodd y gyfradd ddyddiol ar gyfer Cadeirydd o £333.00 i £400.00, tra newidiodd cyfradd yr aelodau o £267.00 i £310.00.

⁴ Nid yw Hugh Widdis yn hawlio cyfradd ddyddiol am ei waith ar y Bwrdd.

Tabl dau – Costau teithio a chynhaliaeth aelodau'r Bwrdd⁵

	Y Fonesig Dawn Primarolo	Ronnie Alexander	Y Fonesig Jane Roberts	Trevor Reaney	Michael Redhouse	Dr Elizabeth Haywood	Hugh Widdis
Milltiroedd mewn car	£0.00	£24.00	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00
Taksi / llogi car	£21.20	£0.00	£9.41	£0.00	£0.45	£0.00	£0.00
Teithio mewn awyren	£0.00	£0.00	£0.00	£204.79	£0.00	£0.00	£0.00
Trên a'r tiwb	£0.00	£0.00	£48.77	£3.22	£0.00	£0.00	£0.00
Tollau	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00
Treuliau eraill	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00
Llety	£0.00	£0.00	£43.00	£43.00	£15.95	£0.00	£0.00
Cynhaliaeth (arlwyo)	£0.00	£26.40	£0.00	£11.18	£0.00	£0.00	£0.00
	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00

⁵ Mae'r symiau hyn yn ymwneud â hawliadau teithio a chynhaliaeth a wnaed tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol (2019-20) ac nid ydynt yn adlewyrchu'r treuliau a hawliwyd yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn berthnasol iddi. Ni wnaed unrhyw hawliadau teithio a chynhaliaeth yn ystod y flwyddyn adrodd oherwydd pandemig COVID-19.

Cyfanswm	£21.20	£50.40	£101.18	£262.19	£16.40	£0.00	£0.00	£451.37
-----------------	--------	--------	---------	---------	--------	-------	-------	---------

Atodiad C: Prosiectau'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu 2020-21

Aelod o'r Senedd	Teitl y gwaith
Adam Price	Fframwaith Adfer COVID-19
Bethan Sayed	Hysbyseb South Wales Evening Post
Caroline Jones	Arolwg COVID-19 Gorllewin De Cymru
Caroline Jones	Arolwg COVID-19 Gorllewin De Cymru
Dai Lloyd	Hysbyseb South Wales Evening Post
Dai Lloyd	Hysbysebu ar ochr y cae – Clwb Rygbi Abertawe
Dai Lloyd	Adroddiad Blynyddol Aelod Etholedig i Etholwyr
Darren Millar	Arolwg COVID-19
Darren Millar	Arolwg COVID-19
Darren Millar	Arolwg COVID-19
David Rees	Clwb Pêl-droed Port Talbot – Bwrdd hysbysebu ar y maes/tudalen lawn yn y rhaglen
David Rees	Clwb Pêl-droed Port Talbot – Bwrdd hysbysebu ar y maes/tudalen lawn yn y rhaglen
David Rees	Bwrdd hysbysebu ar faes Clwb Rygbi Aberafan
Dawn Bowden	Bwrdd hysbysebu ar y cae a hysbysebion yn y rhaglen – Clwb Pêl-droed Treharris Western
Dawn Bowden	Bwrdd hysbysebu ar y cae – Clwb Rygbi Merthyr
Dawn Bowden	Bwrdd hysbysebu ar y cae – Cymdeithas Clwb Pêl-droed Merthyr Tudful
Dawn Bowden	Cyfathrebu ac ymgysylltu ag etholwyr – gaeaf 2020
Dawn Bowden	Cyfathrebu ac ymgysylltu ag etholwyr – gaeaf 2020
Elin Jones	Adroddiad Blynyddol Elin Jones
Elin Jones	Adroddiad Blynyddol Elin Jones
Eluned Morgan	Talking Hunger
Eluned Morgan	Talking Hunger
Hannah Blythyn	Hysbyseb Inside Flintshire
Hannah Blythyn	Llythyr at bobl ifanc 16-18 oed
Hannah Blythyn	Rhoi taflen 'Amdanaf i' yn Connections Magazine
Hannah Blythyn	Hysbyseb Flintshire Leader
Hannah Blythyn	Llythyr ynghylch yr UE a phreswyllo
Hefin David	Argraffu a dosbarthu taflen etholaethol

Hefin David	Argraffu a dosbarthu taflen etholaethol
Helen Mary Jones	Adnewyddu cymunedau ôl-ddiwydiannol
Huw Irranca-Davies	Ailddatblygu ac adnewyddu gwefan
Jack Sargeant	Taflen preswyliaid Bwcle
Jack Sargeant	Taflen preswyliaid Bwcle
Jane Hutt	Gohebiaeth – gwybodaeth ynghylch pleidleisio drwy'r post
Jane Hutt	Gohebiaeth – gwybodaeth ynghylch pleidleisio drwy'r post
Janet Finch-Saunders	Taflen – diweddariad i'r etholaeth (COVID-19)
Janet Finch-Saunders	Taflen – diweddariad i'r etholaeth (COVID-19)
Janet Finch-Saunders	Taflen – diweddariad i'r etholaeth (COVID-19)
Janet Finch-Saunders	Taflen – diweddariad i'r etholaeth (COVID-19)
Janet Finch-Saunders	Taflen – diweddariad i'r etholaeth (COVID-19)
Janet Finch-Saunders	Taflen – diweddariad i'r etholaeth (COVID-19)
Janet Finch-Saunders	Taflen – diweddariad i'r etholaeth (COVID-19)
Jayne Bryant	Gwybodaeth am gyflwyno'r brechlynnau i ddinasyddion dros 80 oed
Jayne Bryant	Gwybodaeth am gyflwyno'r brechlynnau i ddinasyddion dros 80 oed
Jayne Bryant	Gwybodaeth am gyflwyno'r brechlynnau i ddinasyddion dros 80 oed
Jayne Bryant	Gwybodaeth i ddinasyddion Ewrop
Jayne Bryant	Gwybodaeth i ddinasyddion Ewrop
Jayne Bryant	Gwybodaeth i ddinasyddion Ewrop
Jenny Rathbone	Llythyr – argaeledd pleidlais drwy'r post
Jenny Rathbone	Llythyr – argaeledd pleidlais drwy'r post
Jeremy Miles	Ail-frandio a dylunio fel Jeremy Miles AS
John Griffiths	Hysbyseb yn rhaglen Clwb Rygbi Casnewydd
Julie Morgan	Cylchlythyr lliw A4 dwy ochr
Julie Morgan	Cylchlythyr lliw A4 dwy ochr
Julie Morgan	Llythyr at etholwyr ynghylch pleidleisio drwy'r post
Leanne Wood	Cyfieithu adroddiad ar lifogydd
Lee Waters	Adroddiad blynyddol
Lee Waters	Adroddiad blynyddol
Lee Waters	Adroddiad blynyddol
Lee Waters	Adroddiad blynyddol
Llyr Huws Gruffydd	Ynni Cymru
Mark Drakeford	Diweddariad trafndiaeth Gogledd Orllewin Caerdydd
Mark Drakeford	Llythyr ynghylch pleidleisio drwy'r post
Mark Drakeford	Llythyr ynghylch pleidleisio drwy'r post
Mark Drakeford	Diweddariad trafndiaeth Gogledd Orllewin Caerdydd
Mick Antoniw	Argraffu a dosbarthu adroddiad blynyddol AS
Mick Antoniw	Argraffu a dosbarthu adroddiad blynyddol AS

Mick Antoniw	Argraffu a dosbarthu adroddiad blynyddol AS
Mick Antoniw	Argraffu a dosbarthu adroddiad blynyddol AS
Neil McEvoy	Hysbyseb ar safle newyddion digidol i Gymru
Neil McEvoy	Ymchwil i'r Gwasanaeth Plant
Neil McEvoy	Cwestiwn ynghylch cyfarpar diogelu personol i'r gweinidog iechyd
Neil McEvoy	Hysbyseb ar safle newyddion digidol i Gymru
Paul Davies	Arolwg Coronafeirws
Arweinydd grŵp Plaid Cymru	Arolwg o farn y cyhoedd ynghylch craffu ar y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), sydd bellach yn Ddeddf
Rebecca Evans	Llythyrau ynghylch pleidleisio drwy'r post
Rebecca Evans	Llythyrau ynghylch pleidleisio drwy'r post
Rebecca Evans	Llythyr at wladolion yr UE sy'n byw yn etholaeth Gŵyr
Rebecca Evans	Llythyr at wladolion yr UE sy'n byw yn etholaeth Gŵyr
Sian Gwenllian	Taflen i etholwyr am fy ngwaith yn 2020
Suzy Davies	Cymorthfeydd ffôn COVID-19
Suzy Davies	Cymorthfeydd COVID-19 Tachwedd
Vikki Howells	Taflen wybodaeth diwedd y flwyddyn Vikki Howells AS
Vikki Howells	Taflen wybodaeth diwedd y flwyddyn Vikki Howells AS